



# Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i [ymuno â'n rhestr bostio](#).

# Diolch

STAFF ADDYSGU CYMRU SCHOOL STAFF



## Neges gan GwE ac Awdurdodau Lleol y Rhanbarth

Brynhawn ddydd Mercher, 03/06/2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, fanylion y cam nesaf i ysgolion yng Nghymru, gan roi cyfle i "Ddod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi".

Heddiw, mae Llywodraeth Cymru wedi [cyhoeddi canllawiau i gefnogi ysgolion i gynyddu capasiti](#).

Rydym yn deall yn union pa mor heriol fydd y cyfnod nesaf hwn, a bydd y gwaith cynllunio dros y cyfnod pontio hwn yn dyngedfennol gyda lles a diogelwch dysgwyr a staff o'r pwys pennaf. Nid un penderfyniad yw hwn, ond cyfres o benderfyniadau dros amser i gynyddu neu, os bydd angen, lleihau nifer y dysgwyr a fydd yn mynd i'r ysgol pob diwrnod.

Mae'r chwe Awdurdod Lleol sydd yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda GwE wedi bod yn gweithio ar y fframwaith cefnogol ar gyfer rhoi cyngor ac arweiniad i ysgolion wrth i ysgolion wneud paratodau a datblygu ar y ddarpariaeth bresennol i blant bregus, a phlant gweithwyr allweddol.

Gwyddom eich bod eisoes yn gweithio ar yr asesiadau risg a rannwyd yr wythnos ddiwethaf, a gobeithio y bydd fframwaith ymarferol rhanbarthol yn cael ei rannu â chi ddydd Gwener yma. Bydd hwn yn helpu arweinwyr ysgolion gynllunio'r camau gweithredu a'r penderfyniadau penodol sydd eu hangen i baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf mewn addysg, a bydd yn rhoi sylw i'r meysydd hyn:

1. Iechyd a Diogelwch;
2. Safle a chyfleusterau;
3. Cludiant;
4. Staffio;

## CYNNWYS

### GwE

- Cysylltu â GwE
- [Cylchlythyr STEM Gogledd](#)
- [Dolenni Defnyddiol](#)

### Llywodraeth Cymru

- ["Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi" - Pob ysgol yng Nghymru i ddechrau'r cam nesaf](#)
- [Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc](#)
- [Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.](#)
- [Diweddariadau Covid 19 Llywodraeth Cymru](#)
- [Cylchlythyr Dysg](#)

### Arall

- [Great Science Share for Schools](#)
- [Dysgu Proffesiynol - Yr Iaith Gymraeg](#)
- [Cwrs Sabothol Cymraeg Lefel Canolradd](#)
- [Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth Xplore, Wrecsam](#)
- [Plant Milwyr - canllawiau cyllid i ysgolion yng Nghymru](#)
- [Cysgliad - meddalwedd sy'n gwirio iaith a gramadeg Cymraeg](#)
- [Prosiect Darllen Ar-lein Gogledd Cymru - Cadw Disgyblion i Ddarllen!](#)
- [Dolenni Defnyddiol](#)



5. Dysgu ac addysgu;
6. Cymorth i ddysgwyr;
7. Cyfathrebu;
8. Tasgau rheolaethol allweddol eraill.

Deallwn na fydd un ateb cyffredinol i bawb, gan fod y newidynnau yn niferus ac yn berthnasol i gyd-destun unigol pob ysgol. Gan weithio'n agos gyda swyddogion yr Awdurdodau Lleol a'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, manteisir ar gyfleoedd i ysgolion allu cydweithio ag ysgolion eraill i rannu syniadau a dogfennau.

Os oes arnoch angen cymorth bellach, gall swyddogion yr ALL a GwE drafod unrhyw faterion penodol sy'n berthnasol i'w harbenigedd.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Cadw Cymru'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.  Keep Wales Safe.  
Keep Wales Learning.

## “Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi” - Pob ysgol yng Nghymru i ddechrau'r cam nesaf



Bydd pob plentyn yn cael cyfle i “Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi”, [cyhoeddodd Kirsty Williams](#) yn ddiweddar wrth iddi gyhoeddi manylion y cam nesaf i ysgolion yng Nghymru.

[Cliciwch yma](#) i ddarllen llythyr gan y Gweinidog Addysg a anfonwyd at Benaethiaid a Llywodraethwyr ar y cam nesaf i ysgolion yng Nghymru - “Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi”.

[Cliciwch yma](#) i ddarllen y Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi canllawiau i gefnogi lleoliadau addysgol i gynyddu capasiti.

- [Canllawiau Gweithredo](#)
- [Canllawiau Gofal Plant](#)
- [Canllawiau ar ddysgu dros dymor yr haf](#)
- [Adran Cwestiynau Cyffredin - Llywodraeth Cymru](#)

## Cadw Cymru'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.

### CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL:

- [Rhaglen Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu](#)
- [Cyngor ar gyfer lleoliadau, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion \(UCD\) i'w cefnogi yn eu gwaith gyda dysgwyr - Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell](#)
- [Cyngor i rieni/gofalwyr](#)
- [Offer dysgu o bell drwy Hwb](#)
- [Cyngor newydd i gynorthwyo arweinwyr ysgolion ac UCDAu i barhau â busnes ysgol](#)
- [Cefnogi eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref](#)

Yn ogystal â'r arweiniad, mae adnoddau ar gael i helpu gyda pharatoi gweithgareddau dysgu. Rhennir y rhain â chi drwy eich Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant.



# Gwybodaeth a Chanllawiau GwE

## Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar [post@GwEGogledd.Cymru](mailto:post@GwEGogledd.Cymru) ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



## Cylchlythyr STEM Gogledd

[Cliciwch yma](#) am gopi diweddaraf o'r cylchlythyr.



## Dolenni Defnyddiol

### Google Classroom i Gymorthyddion Dysgu

- [Cyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad i'r dudalen drwy ddefnyddio eich cyfrif Hwb](#)
- [Cyfarwyddiadau dwyieithog ar sut i ddefnyddio Google Classroom](#)
- [Linc i droslais yn egluro beth sydd yn y Google Classroom](#)

### Cylchlythyrau

- [Newyddlen y Gymraeg](#)
- [Cylchlythyr STEM Gogledd](#)

### Adnoddau GwE ar Google Classroom

- [Arweiniad ar Google Classroom a Microsoft Teams](#)
- [Gwybodaeth bellach](#)

### Diweddariadau Covid-19 GwE

- [Holl ddiweddariadau gwybodaeth GwE a anfonwyd i ysgolion](#)

# Gwybodaeth a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

## Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc

Mae'r [Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc](#) yn cyfeirio pobl ifanc 11 i 25 oed at amrywiaeth o adnoddau ar-lein a all eu helpu trwy'r cyfyngiadau symud a'r tu hwnt. Ym mhob un o'r chwe adran mae gwefannau, apiau, llinellau cymorth a mwy, sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles.

## Diweddariadau Covid 19 Llywodraeth Cymru

Mae dolenni defnyddiol eraill Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r coronafirws i'w gweld isod:

- [Gwefan](#) Coronafirws Llywodraeth Cymru
- Coronafeirws (COVID-19): [canllawiau lleoliadau addysgol](#)
- [Addysg a gofal plant: coronafeirws](#)
- Coronafeirws: [canllawiau teithio i sefydliadau addysg a myfyrwyr](#)
- Cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru <https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraaf-am-coronavirus-newydd-covid-19/>
- Dilynwch ar Twitter [@LIC\\_Addysg](#) neu [www.facebook.com/addysgcymru](http://www.facebook.com/addysgcymru)

## Cylchlythyr Dysg

Sicrhewch eich bod yn derbyn diweddariadau a datblygiadau wythnosol Llywodraeth Cymru ar y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Cofrestrwch i dderbyn Dysg [yma](#)



# Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

## Great Science Share for Schools

Mae'r [Great Science Share for Schools](#) yn dod i ysgolion ledled y Deyrnas Unedig ar **16 Mehefin**. Hoffai'r Great Science Share for Schools glywed gan ysgolion yng Nghymru er mwyn ymestyn yr ymgyrch a denu mwy o ddisgyblion at wyddoniaeth. Mae hon yn ymgyrch flynyddol i ysbrydoli pobl ifanc i rannu eu cwestiynau gwyddonol efo cynulleidfaoedd newydd. Gyda'r Great Science Share for Schools, bydd plant yn cyfleu rhywbeth maent wedi bod yn ymchwilio iddo sy'n gwreiddio o gwestiwn sydd o ddiddordeb iddynt, ac mae hyn wedi cyrraedd dros 100,000 o bobl ers ei lansio yn 2016. Dilynwch y [ddolen hon](#) i ddod i wybod mwy a sut i gymryd rhan, a chael deunyddiau dwyieithog.



[www.greatscienceshare.org](http://www.greatscienceshare.org)

## Dysgu Proffesiynol - Yr Iaith Gymraeg

Eisiau gloywi eich iaith? Cyfleoedd gwych [yma](#)...manteisiwch arnyn nhw!

## Cwrs Sabothol Cymraeg Lefel Ganolradd

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth am y Cwrs Sabothol Cymraeg Lefel Ganolradd ac i wneud cais

## Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth Xplore, Wrecsam

Ar ôl 17 mlynedd ar gampws Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, rydym wrthi'n brysur yn rhoi'r wedd derfynol i'n Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth Xplore! ynghanol tref Wrecsam (gymaint ag y bo'n ymarferol bosibl!) ac ni allwn aros i groesawu pawb pan mae'n ddiogel gwneud hynny. Yr hyn sy'n gyffrous yw ein bod eisoes wedi dechrau defnyddio ein brand newydd Xplore! ar ein gwefan [www.xplorescience.co.uk](http://www.xplorescience.co.uk) a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol [www.facebook.com/XploreScience/](https://www.facebook.com/XploreScience/) [www.twitter.com/xplorescienceuk](https://www.twitter.com/xplorescienceuk)



Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth  
Science Discovery Centre

Ar hyn o bryd rydym yn rhyddhau fideos STEM, cwisiau a thafenni gweithgaredd dwyieithog trwy'n sianeli cyfryngau cymdeithasol ni ac ar [www.xploresciencecentre.blogspot.com](http://www.xploresciencecentre.blogspot.com) ynn wythnosol i ysgolion a theuluoedd, yn rhad ac am ddim. Rydym hefyd yn edrych i'r dyfodol ac yn datblygu ein canolfan a'n gweithgareddau er mwyn sicrhau y gallwn gefnogi ysgolion tra bod mesuriadau ymbellhau cymdeithasol mewn lle.

Cysylltwch â ni ar [projects@xplorescience.co.uk](mailto:projects@xplorescience.co.uk) os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau neu geisiadau am sut y gallwn gefnogi ein gilydd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

## Plant Milwyr – canllawiau cyllid i ysgolion yng Nghymru

Mae aelodau rhwydwaith SSCE Cymru wedi cynhyrchu'r [ddogfen hon](#) i roi gwybodaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru am y ffrydiau cyllido sydd ar gael, ynghyd â chyngor ar lenwi'r ffurflenni cais. Mae'r cyngor yn dod gan aelodau'r paneli ariannu, yn ogystal ag ysgolion ac awdurdodau lleol sydd wedi bod yn llwyddiannus yn gwneud cais am y grantiau.



## Cysgliad – meddalwedd sy'n gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg

Meddalwedd iaith ar gael am ddim i helpu gydag addysgu a gweithio gartref – [cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth.



# Prosiect Darllen Ar-lein Gogledd Cymru - Cadw Disgyblion i Ddarllen!

## HEADSPROUT

Bellach, mae trwyddedau 90 diwrnod RHAD AC AM DDIM gan Headsprout, sy'n rhoi mynediad i hyfforddiant darllen a phecyn hyfforddiant cynhwysfawr ar-lein gan Brifysgol Bangor, sydd hefyd AM DDIM.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Os hoffech chi ymuno â'r prosiect, neu ofyn unrhyw gwestiwn, anfonwch e-bost at [sarah.e.roberts@bangor.ac.uk](mailto:sarah.e.roberts@bangor.ac.uk)

## Dolenni Defnyddiol

- [Estyn - Cameos a syniadau o ysgolion ac UC Dau ar barhau â busnes ysgol](#)
- [Primary Science Teaching Trust - Adnoddau](#)
- [Covid-19: Rhianta 24/7 - Canllawiau ar sail tystiolaeth i rieni](#)
- [Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Blog Pobl Ifanc](#)
- [BookTrust Cymru - Taith Ddigidol Amser Gartref](#)
- [NSPCC a'r Adran Addysg - Pecyn Ymgyrch ar gyfer y Llinell Gymorth](#)

 [post@gwegogledd.cymru](mailto:post@gwegogledd.cymru)

